# Adolygiad o Drefniadau Rheoli Perfformiad – Cyngor Sir Fynwy

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4615A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn | 4 |
| Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno | 4 |
| Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad | 5 |
| Pam fod rheoli perfformiad yn bwysig | 5 |
| Yr hyn a ganfuom | 6 |
| Mae gan y Cyngor drefniadau priodol i reoli ei berfformiad ac mae'n rhagweithiol o ran adnabod meysydd ar gyfer gwella | 6 |
| Mae gan y Cyngor system rheoli perfformiad sy'n aeddfedu ac sydd o gymorth i gyflawni ei amcanion corfforaethol | 6 |
| Mae lefelau anghyson o esboniad manwl am berfformiad gwael yn rhwystr i drefniadau sy'n effeithiol fel arall ar gyfer monitro a herio perfformiad | 6 |
| Mae'r Cyngor wedi adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli perfformiad ac wedi adnabod meysydd ar gyfer gwella | 7 |
| Ein hargymhellion i'r Cyngor | 8 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Cwestiynau a meini prawf archwilio | 9 |

# Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn

## Ein dyletswyddau archwilio

1 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

2 Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn oedd:

- cael sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau priodol i reoli ei berfformiad; ac
- adnabod agweddau ar y trefniadau y gellir eu cryfhau.

# Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

3 Fe ganolbwyntiodd yr archwiliad hwn ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei berfformiad ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaethau. Nid oedd yn cwmpasu trefniadau'r Cyngor ar gyfer perfformiad unigolion/staff.

4 Rydym wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar o wybodaeth am berfformiad[1] gan ganolbwyntio ar wybodaeth am ddeilliannau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau, ac fe fwriodd yr adolygiad hwn olwg ar yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i ymateb i'r argymhellion a wnaethom yn yr adroddiad hwnnw. Ni wnaethom adolygu trefniadau craffu'r Cyngor fel rhan o'r gwaith hwn.

5 Roeddem yn amcanu at ateb y cwestiwn: A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i reoli ei berfformiad?

6 Fe wnaethom hyn trwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad eglur sydd o gymorth i gyflawni ei amcanion corfforaethol?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i fonitro a herio perfformiad yn effeithiol?
- A yw'r Cyngor wedi adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli perfformiad?

7 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r cwestiynau manwl yr oeddem yn amcanu at eu hateb ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i lunio ein canfyddiadau.

[1] Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau – Cyngor Sir Fynwy

# Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad

8 Goleuwyd ein hadolygiad gan adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda swyddogion ac aelodau. Fe gynhaliom ni grŵp ffocws gyda swyddogion hefyd.

9 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2024 a mis Hydref 2024.

# Pam fod rheoli perfformiad yn bwysig

10 Mae'n bwysig bod gan gynghorau drefniadau rheoli perfformiad effeithiol i'w helpu i ddeall eu perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion, ac i weithredu lle y bo angen. Gan bod cynghorau'n gynyddol yn wynebu pwysau sylweddol yn ariannol ac o ran y galw, mae trefniadau rheoli perfformiad yn hollbwysig i helpu cynghorau i ganolbwyntio ar gyflawni deilliannau ac i helpu i benderfynu a yw arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn helpu i ddwyn aelodau a swyddogion i gyfrif hefyd .

11 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021[2] yn nodi cyfundrefn wella newydd ar gyfer cynghorau. Mae'r Canllawiau Statudol ar Ran 6, Pennod 1[3] o'r Ddeddf hon, sy'n canolbwyntio ar arfer swyddogaethau perfformiad a llywodraethu, yn tanlinellu bod y Ddeddf yn diffinio cynghorau'n bendant fel sefydliadau sy'n hunanwella trwy system sy'n seiliedig ar hunanasesu ac asesiadau panel o berfformiad. Mae'r dull hwn wedi'i fwriadu i adeiladu ar ddiwylliant a chefnogi diwylliant lle mae cynghorau'n mynd ati'n barhaus i herio'r drefn sydd ohoni, gofyn cwestiynau am sut y maent yn gweithredu, ac ystyried arfer gorau yng Nghymru ac yn ehangach. Mae a wnelo â 'cheisio sicrhau'r deilliannau gorau i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu'.

12 O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu'n gyson i ba raddau y mae'n ateb y 'gofynion o ran perfformiad' – hynny, yw, i ba raddau:

- y mae'n arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- y mae'n defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon, ac yn effeithiol; ac
- y mae ei drefniadau llywodraethu'n effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

[2] Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

[3] Perfformiad a llywodraethu prif gynghorau – Canllawiau statudol ar Ran 6, Pennod 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

# Yr hyn a ganfuom

13 Ar y cyfan, canfuom fod **gan y Cyngor drefniadau priodol i reoli ei berfformiad a'i fod yn rhagweithiol o ran adnabod meysydd ar gyfer gwella**. Rydym yn nodi isod pam ein bod wedi dod i'r casgliad hwn.

## Mae gan y Cyngor system rheoli perfformiad sy'n aeddfedu ac sydd o gymorth i gyflawni ei amcanion corfforaethol

14 Mae'r Cyngor wedi diffinio'n glir beth yw'r deilliannau y mae'n bwriadu eu cyflawni yn ei Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 ac mae'n nodi sut y bydd yn mesur cynnydd yn eu herbyn. Mae'r mesurau'n cynnwys cymysgedd o fewnbynnau, allbynnau a deilliannau, ac mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad ategol yn ei gwneud yn bosibl rhaeadru gweithgarwch i'r cynlluniau gwasanaeth perthnasol.

15 Mae gan y Cyngor dempled ar gyfer cynlluniau gwasanaeth a ddefnyddir yn gyson ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau. Ceir cynlluniau i barhau i wella cysondeb trwy'r broses sicrhau ansawdd bresennol.

16 Mae gan y Cyngor ddiwylliant rheoli perfformiad sy'n aeddfedu ac mae'n ymateb i argymhellion a wnaed yn adolygiad Archwilio Cymru o wybodaeth am berfformiad[4]. Mae swyddogion yn cydnabod bod risg o duedd optimistiaeth wrth asesu perfformiad ac mae'r Cyngor wedi mabwysiadu haenau strwythuredig o her ar lefel cyfarwyddiaethau ac ar lefel gorfforaethol i liniaru'r risg hon.

17 Mae rolau aelodau a swyddogion mewn perthynas â rheoli perfformiad wedi'u diffinio'n glir ac yn cael eu deall yn glir. Gall swyddogion gael mynediad at ystod o ganllawiau perthnasol ar y fewnrwyd ac fe siaradodd swyddogion ac aelodau'n uchel am y cymorth sydd ar gael ar gais gan y tîm corfforaethol.

## Mae lefelau anghyson o esboniad manwl am berfformiad gwael yn rhwystr i drefniadau sy'n effeithiol fel arall ar gyfer monitro a herio perfformiad

18 Mae trefniadau'r Cyngor yn ei alluogi i adnabod perfformiad da ac adnabod yr hyn y mae angen iddo ei wella. Mae'r adroddiadau chwemisol cynhwysfawr a diweddariadau chwarterol i ddangosfyrddau perfformiad a chynlluniau gwasanaeth yn galluogi aelodau a swyddogion i weld pwysau a materion yn ystod y flwyddyn y gall fod angen gwneud penderfyniadau er mwyn eu hunioni. Ond er bod y drefn ar gyfer adrodd ar berfformiad yn newid i fod yn fwy cytbwys, ceir enghreifftiau lle nad yw tanberfformiad yn cael ei gyflwyno mewn cymaint o fanylder â pherfformiad

[4] Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau – Cyngor Sir Fynwy

cadarnhaol. Mae hyn yn gwneud craffu ar berfformiad yn fwy o her gan nad yw hi wastad yn glir beth yw'r rhesymau dros danberfformiad a sut yr ymdrinnir â'r rhain.

19 Mae'r Cyngor yn adolygu cynnydd dros gydbwysedd o raddfeydd amser lle mae'r data'n caniatáu. Cyfyngedig yw'r gweithgarwch i gymharu perfformiad yn erbyn awdurdodau eraill, ond cydnabyddir nad yw gwybodaeth gymharol ledled Cymru wedi bod ar gael mor rwydd dros y blynyddoedd diwethaf.

20 Mae perfformiad corfforaethol a pherfformiad cyfarwyddiaethau'n cyd-fynd yn rhannol â phrosesau cynllunio ariannol a phrosesau cynllunio adnoddau ehangach, gyda rhai adroddiadau'n cael eu cyflwyno i aelodau ar yr un pryd. Trwy ystyried materion ariannol a pherfformiad gyda'i gilydd, mae aelodau sy'n craffu ar berfformiad yn cael gweld darlun mwy cyflawn wrth ystyried a yw'r Cyngor yn cyflawni gwerth am arian. Gallai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ymhellach trwy gyflwyno adroddiadau ar risgiau ar yr un pryd.

## Mae'r Cyngor wedi adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli perfformiad ac wedi adnabod meysydd ar gyfer gwella

21 Mae'r Cyngor yn cynnal hunanasesiad blynyddol o'i drefniadau rheoli perfformiad i ddeall meysydd y gellir eu cryfhau ymhellach. Canfu ein hadolygiad ni o'r asesiad diweddaraf ei fod yn adlewyrchiad gonest sy'n nodi meysydd perthnasol ar gyfer gwella. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n cael yr adroddiad ac yn cael y cyfle i herio trefniadau a gwneud sylwadau arnynt.

22 Mae gan y Cyngor enghreifftiau ar lefel cyfarwyddiaethau o ymgysylltu â chynghorau eraill ar drefniadau rheoli perfformiad. Mae hyn yn cynnwys rhwydweithiau proffesiynol ac ymgysylltu ehangach trwy Gwmni Llywodraeth Leol Cymru, DataCymru.

23 Er nad yw'r Cyngor wedi mynd ati'n ffurfiol i archwilio cyfleoedd i ddysgu ar lefel gorfforaethol, nid yw'n ymddangos fel bod hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar ei allu i hunanfyfyrio a cheisio cyfleoedd ar gyfer gwella.

# Ein hargymhellion i'r Cyngor

**Arddangosyn 1: ein hargymhellion i'r Cyngor**

| **Argymhellion** | |
| --- | --- |
| A1 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei drefniadau rheoli perfformiad yn parhau i ategu trefn dryloyw a chadarn ar gyfer craffu ar berfformiad. Er mwyn parhau â'r cynnydd a wnaed yn barod, dylai:<br>• gynyddu cysondeb cynllunio gwasanaethau;<br>• hyrwyddo'r adnoddau hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael; a<br>• sicrhau bod meysydd lle ceir tanberfformiad yn cael eu lliniaru'n gyson ac yn ddigonol gydag esboniad cadarn. |

# Atodiad 1

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

Isod ceir y cwestiynau yr oeddem yn ceisio eu hateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i lunio ein canfyddiadau.

Prif gwestiwn archwilio: **A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i reoli ei berfformiad?**

**Arddangosyn 2: cwestiynau archwilio a'r meini prawf archwilio**

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| **A oes gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad eglur sydd o gymorth i gyflawni ei amcanion corfforaethol?** | A yw'r Cyngor wedi diffinio'n glir beth yw'r deilliannau y mae'n bwriadu ei cyflawni a sut y bydd yn mesur cynnydd yn erbyn y rhain? | Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn mynegi'n glir beth yw'r nodau, y blaenoriaethau a'r deilliannau y bwriedir eu cyflawni.<br>Mae gan y Cyngor Fframwaith Rheoli Perfformiad sy'n mapio sut y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn monitro cynnydd yn erbyn ei amcanion. |
| | A oes gan y Cyngor gynlluniau gwasanaeth/gweithredu i roi cymorth i gyflawni ei amcanion corfforaethol? | Mae cynlluniau gwasanaeth yn cyd-fynd yn glir â chynllun corfforaethol y Cyngor, gan ddangos sut y bydd y gwasanaeth yn helpu i gyflawni amcanion corfforaethol lle y bo'n berthnasol.<br>Mae trefniadau yn eu lle i sicrhau ansawdd cynlluniau gwasanaeth. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
| --- | --- | --- |
| | A oes diwylliant rheoli perfformiad o fewn y sefydliad? | Mae uwch arweinwyr yn ysgogi'r ffocws ar reoli perfformiad ac yn tanlinellu pwysigrwydd hynny.<br>Ceir trafodaethau agored ac adeiladol am berfformiad gan ddefnyddio dull seiliedig-ar-dystiolaeth i hwyluso dysgu ac atebolrwydd.<br>Mae rheoli perfformiad yn rhan annatod o'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu.<br>Mae gan aelodau a swyddogion rolau sydd wedi'u diffinio'n glir mewn perthynas â rheoli perfformiad.<br>Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant rheoli perfformiad ar gyfer aelodau a swyddogion. |
| **A oes gan y Cyngor drefniadau i fonitro a herio perfformiad yn effeithiol?** | A yw'r Cyngor yn darparu adroddiadau rheolaidd a chadarn ar berfformiad sy'n ei alluogi i ddeall ei gynnydd yn erbyn ei amcanion corfforaethol a pha un a yw'n cyflawni'r effaith a fwriadwyd? | Mae'r Cyngor yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd (e.e. chwarterol neu chwemisol) ar berfformiad sy'n werthusol ac yn dangos yn glir pa gynnydd y mae wedi'i wneud yn erbyn ei amcanion.<br>Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth (ansoddol a meintiol) am berfformiad i fonitro a rheoli perfformiad.<br>Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaethom yn ein hadroddiad ar wybodaeth |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| | | am berfformiad (gan gryfhau ei wybodaeth am berfformiad lle mae deilliannau a safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau yn y gwestiwn) |
| | A yw'r Cyngor yn adolygu cynnydd yn erbyn cydbwysedd o amcanion/deilliannau tymor byr (un flwyddyn), tymor canolig (un i dair blynedd) a thymor hwy (tair i bum mlynedd)? | Mae'r Cyngor yn cynhyrchu adroddiadau ar berfformiad sy'n dangos cynnydd yn erbyn yr adegau disgwyliedig.<br><br>Mae'r Cyngor yn cynnwys gwybodaeth gymharol, tueddiadau, a rhagolygon. |
| | A yw'r adroddiadau ar berfformiad Corfforaethol a Chyfarwyddiaethau'n cyd-fynd â phrosesau cynllunio ariannol a phrosesau cynllunio adnoddau ehangach? | Mae rheoli perfformiad wedi'i integreiddio â threfniadau rheoli adnoddau a rheoli risg y Cyngor i sicrhau bod ffocws cyflawn ar gyflawni yn erbyn amcanion y Cyngor ac i'w helpu i ddeall a yw'n cyflawni gwerth am arian.<br><br>Mae'r Cyngor yn cyflwyno ei adroddiadau monitro'r gyllideb yn yr un cyfarfod ag adroddiadau ar berfformiad i alluogi Aelodau i ystyried adnoddau a pherfformiad gyda'i gilydd. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| | A yw trefniadau'r Cyngor yn ei alluogi i adnabod perfformiad da a dysgu ohono, a mynd i'r afael â pherfformiad gwael? | Ceir tystiolaeth bod y Cyngor yn gweithredu i fynd i'r afael â pherfformiad gwael.<br>Mae'r Cyngor yn gallu darparu enghreifftiau lle mae ei drefniadau rheoli perfformiad wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau. |
| | A oes goruchwyliaeth effeithiol ar berfformiad? | Mae'r Cabinet a Phwyllgorau Craffu'n defnyddio gwybodaeth am berfformiad i oleuo prosesau penderfynu ac i'w galluogi i ddeall a herio perfformiad.<br>Mae perfformiad yn cael ei adolygu a'i drafod yn rheolaidd ar lefel uwch reolwyr a'r Cabinet.<br>Ceir trefniadau i reoli perfformiad ar lefel Cyfarwyddiaethau ac i uwchgyfeirio materion pan fo angen.<br>Ceir atebolrwydd am berfformiad. |
| **A yw'r Cyngor wedi adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli perfformiad?** | A yw'r Cyngor wedi archwilio sut y mae sefydliadau eraill yn rheoli perfformiad ac wedi dysgu o hynny? | Mae'r Cyngor wedi ymchwilio i sut y mae sefydliadau eraill yn rheoli eu perfformiad ac yn gallu dangos bod unrhyw wersi a ddysgwyd o hyn wedi cael eu rhoi ar waith. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
| --- | --- | --- |
| | A yw'r Cyngor wedi adolygu a diweddaru ei drefniadau rheoli perfformiad? | Mae'r Cyngor wedi gwerthuso ei drefniadau i ddeall beth sy'n gweithio a beth y mae angen iddo wella ac mae wedi gweithredu i gryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad o ganlyniad. |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.